YR YMOFYNYDD.

Misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1901. [RHIF 6.

Y PWNC ADDYSG UNWAITH ETO.

"UNWAITH eto" ; ond nid y tro olaf. Mae wedi dod i aros ; ac ar gyfrif y ffaith fod llwyddiant a chynydd, neu aflwyddiant a dirywiad ein gwlad, yn ymddibynu arno i raddau mor helaeth, mae yn bwnc o ddyddordeb dwfn a chynyddol. Er 1870, mae llawer ymgais wedi ei wneud i wella y Ddeddf Addysg a basiwyd y flwyddyn hono. Ac at yr ymgeisiadau hyn mae un wedi ei hychwanegu yn nghynllun newydd y Llywodraeth a ddygwyd ger bron y Senedd ddechreu'r mis diweddaf. Nid yw yn ein bwriad i wneud unrhyw fath o feirniadaeth, ffafriol nac anffafriol, ar hyn o bryd ar ddarpariaethau y mesur hwn. Mae ein darllenwyr yn derbyn eu newyddiaduron, a bydd ei ddarpariaethau yn hen adnabyddus iddynt cyn y daw y llinellau hyn i'w sylw. Er hyny, dymunwn anog pob un a deimla ddyddordeb yn addysg y genhedlaeth sydd yn codi, i roi ystyriaeth drwyadl i'r mesur, ac i roddi eu cefnogaeth i unrhyw ymgais i'w wella. Ofnwn (ac yr ydym yn dra sicr yn ein meddwl ein hunain), er fod ynddo lawer o ragoriaethau, nad yw'r oll o'i ddarpariaethau yn welliant. Un o'i effeithiau, fel yr ymddengys i ni, fydd lleihau gallu, ac mewn canlyniad, effeithiolrwydd y Byrddau Ysgol, y rhai ydynt wedi gwneud eu gwaith, yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf, nid yn berffaith, mae'n wir, ond eto gydag yspryd ac yni gwir ganmoladwy. Ond ni chwynem am hyn, pe bwriedid gosod i fyny rywbeth mwy effeithiol yn eu lle, yr hyn, mor bell ag y medrwn farnu, ni wneir. Ac y mae, yn sicr, yn syrthio yn ol yn mhell o'r hyn ystyriem ni yn gyfundrefn addysg gyflawn a gwir effeithiol. Mae yn rhy gynar eto i ddisgwyl am sylweddoliad cyflawn—hyd yn nod cymharol gyflawn, o'n gobaith ar hyn o bryd —sef, gwawriad y dydd pan fydd y fath gyfundrefn wedi ei sylweddoli. Ond, yn mhob ymgais i wella'r gyfundrefn addysgol fel y mae yn awr, dylid cadw hyn mewn golwg. I ni, fel Undodiaid, mae hyn yn ymylu ar fod (os nad yw) yn bwnc crefyddol, am y rheswm fod a

wnelo a chynydd crefyddol dyn. Nid yw addysg ynddi ei hun yn ddigon i wneud dyn yn grefyddol; ond y mae yn elfen bwysig yn nghynyrchiad y bywyd crefyddol. Ac y mae Undodiaid wedi bod erioed yn gefnogwyr addysg; maent felly heddyw. Nid oes genym ond pob peth sydd yn ffafriol i ddisgwyl oddiwrth ledaeniad addysg a gwybodaeth; a thra mae ein cydymdeimlad mwyaf llwyr ag unrhyw ymgais i wneud ein cyfundrefn addysgol yn fwy perffaith ac effeithiol, yr ydym hefyd yn wrthwynebwyr aiddgar i unrhyw ymgais i'w gwneud yn fwy aneffeithiol ac unochrog.

CARMARTHEN COLLEGE.

By Principal Evans, M.A.

(Continued from the May Number, 1901.)

14. John Jones, Ll.D. (1792—4).

JOHN JONES was born at Wernfelen in the parish of Llandingat, near Llandovery (Carm.) in 1764.[1] He received his Grammar-school education at Christ's College, Brecon (1780—3), and was trained for the ministry at New College, Hackney, where he studied for six years (1786—92). The interval, 1783—6, he appears to have spent at home in farm labour,[2] his father's death having necessitated his removal from Brecon.

His Tutorship at Swansea extended over two and a half years,—from Mids. 1792 to Christmas 1794; and is remembered chiefly for his unfortunate disagreements with his colleague, Mr. Howell,[3] resulting as they did in the closing of the Academy.

---

[1] *Teste* George D. Jones, B.A., Barrister-at-law, a son of the Tutor by his second wife, Anna Dyer.

[2] Mr. George D. Jones informed the writer in 1897 that his father and Lewis Lloyd "were sent young to a College at Swansea, where they were friends and companions together, and where they both imbibed Unitarian doctrines." If so, John Jones was at the Academy during 1785—6. But Dr. Charles Lloyd, in his *Particulars*, makes no reference to him, and his language on p. 59 (quoted *supra*) would even appear to exclude him.

[3] The quarrel has been attributed to Tutor Jones's peculiarities of temper: but theological differences may have been the cause at root. Mr. Jones was fond of controversy; and it is certain that the new Unitarianism was obnoxious to Mr. Howell.

On leaving Swansea, he became minister of the Treville St. Congregation at Plymouth (1795—8); after which he opened a school at Halifax (Yorks), taking charge at a later period (1802—4) of the Presbyterian chapel in that town. During 1804—27 he resided in London,[4] devoting himself to teaching and to literature. He died January 10, 1827.[5]

Dr. Jones was a distinguished scholar and a voluminous writer. A list of his publications—some nineteen in number—will be found in the usual works of reference. They relate chiefly to theology and education, and have almost lost their interest for the present generation, though one of them—the Greek-English Lexicon of 1823—is sufficiently remarkable as having been the first compilation of its kind. At the time of his death, he was a member of the Royal Society of Literature, and a Doctor of Laws of the University of Aberdeen, the latter distinction having been conferred on him in 1818.

"The characteristics of Dr. Jones's mind were an irrepressible ardour and enthusiasm in the prosecution of whatever he undertook; great confidence in the correctness of his own views, arising from a consciousness of superior intellectual powers; an utter disdain of the authority of great names when he failed to be convinced by their arguments; a devoted attachment to truth, and a faithful adherence to what he deemed such, united with a fearless disregard of personal consequences."[6]

He had been a Unitarian from an early period in his career, though originally he must have been a member of the Independent church at Pentretygwyn, like his brother, the Rev. Ebenezer Jones of Pontypool.[7] He was twice married, his first wife, who died in 1815, being the only daughter of Dr. Abraham Rees.

* * * * *

The year 1795 forms a natural boundary in the history of the College, and suggests a pause. At some future time, if circumstances should call for it, I may resume the task which I have here begun. In the meantime, I am glad to have been able to store away in the safe keeping of the YMOFYNYDD some of the facts and figures which I have encountered in the course of many pleasurable excursions into

---

[4] At 13, Great Coram St.

[5] The dates in this paragraph are from the *Dict.* of *Nat. Biog.*

[6] *Mon. Rep.* 1827, p. 296.

[7] Ebenezer Jones [1769—1829] entered and left the Academy with his Tutor-brother. He had previously studied at Oswestry Academy (1790—).

old Dissenting by-ways.* I wish I had been able at the same time to give greater prominence to the work which these XVIII Century Tutors accomplished among many difficulties and discouragements. For I am profoundly conscious that while whole paragraphs have sometimes been devoted to incidents of only minor importance, long periods of sacrifice, effort, and achievement have often been dismissed in a single line. But to attempt an estimate of the influence of the Academy would have carried me too far afield, and was beside my immediate purpose, which was to supplement and correct existing biographies, to indicate fresh sources of information, and to provoke further inquiry.

WALTER J. EVANS,

Green Hill, Carmarthen,
November 10, 1900.

TRAGWYDDOLDEB YN AWR.

Mae y sylweddau a'r canlyniadau tragywyddol yn awr ac yma, yn ein perthynas syml, gyffredin, a beunyddiol a Duw a'n cyd-ddynion. Mae tragywyddoldeb heddyw, neu nid yw byth; mae yma, neu nid yw yn un man.—LUCY LARCOM.

---

* ADDENDA ET CORRIGENDA.

Page 155, line 38.	Add "preserved in the New College Historical Library (*Wilson's Memorials, vol.* 1), and almost identical with an anonymous MS. in Dr. Williams's Library."
Page 156, line 22.	For "conducted" read "conducting."
Page 229, line 44.	For "Rev." read "Rep."
Page 231, line 32.	Place a Semicolon after "Testament," "Psalms," and "&c."
Page 251, line 23.	For 692 read 693.
Page 251, line 24.	David Lloyd of Llwyn was offered a Tutorship in 1766. (*Thomas Morgan MSS.*)
Page 253, line 50.	Read "177[3]—7[7]. Jacob Isaac.....[d. 1818]." N.B.—The dates of birth in B. Evans and B. Maurice are without authority, being arrived at inferentially from the age at death or on admission to the Academy. So in Geo. Palmer, Owen Rees, James Curtis, William Evans, Dr. Henry Davies, John Lewis, and Dr. Daniel Jones on subsequent pages.
Page 254, line 1.	For "of" read "on."
Page „ line 43.	For "holl bleserau" read "hoff bleserau."
Page 255, line 23.	Place a semicolon after "circumstances."
Page „ line 30.	For 145 read 144.
Page „ line 36.	Delete "named," and at the end of the paragraph add "unless indeed 'Thomas Davies' is a clerical error for 'Benjamin Davis.'"
Page 258, line 42.	For "has since been," read "was afterwards"; and at the end of the sentence add "It occupied the site of the present 'North Dock Food Mill.'"
Page 259, line 10.	Add "In 1753 he married a Miss Isabel Cave of London, who died 1764. (*Thomas Morgan MSS.*)

NYTH Y FRAN.

Uffern yn y Credoau.

Bu y deugain mlynedd diweddaf yn dyst i dri o alluoedd sydd wedi bod yn gweithio i ddadsylfaenu yr hen syniadau mewn duwinyddiaeth. Mae genym, yn gyntaf, wrthdystiad y galon ddynol yn erbyn creulondeb Duw a chreulondeb uffern yr hen gredoau. Yn ail, gwrthdystiad y rheswm dynol yn erbyn afresymoldeb a gwrthuni yr hen iawnffyddiaeth. Ac yn drydydd, gwrthdystiad beirniadaeth ddiweddar yn erbyn gormes llythyren anffaeledig y Beibl. Yr oedd dylanwad Channing ac ereill wedi bod yn gweithio yn ddystaw i nawseiddio'r awyrgylch am flynyddau cyn i'r cyffro mawr i gymeryd lle. Mae y flwyddyn 1860 yn nodi dechreu cyfnod y rhyddhâd. Yr "*Essays and Reviews*" agorodd yr argaeau, mewn ffordd, a phan y cyhoeddodd Arglwydd Westbury ddedfryd y *Privy Council* ar apêl Dr. Rowland Williams a Mr. Wilson, a "*Hell was dismissed with costs*," parotowyd y ffordd ar gyfer syniadau mwy goleuedig am y Beibl, a mwy hynaws a theilwng am ffyrdd Duw tuag at ddyn. Ar haner y ffordd rhwng 1860 a 1901 saif llyfr dylanwadol Deon Farrar ar "*Eternal Hope*," a gyhoeddwyd yn 1878, yn yr hwn y mae llais Eglwys Lloegr yn siarad yn groyw yn erbyn uffern dragwyddol trwy enau un o'i meibion enwocaf. Erbyn diwedd y ganrif yr oedd lleisiau dirif o bob cangen o'r Eglwys Gristionogol yn siarad yr un iaith ar y mater ; ac fel canlyniad, nid yw ryfedd fod pobl yn gofyn i'w gilydd, hyd yn nod yn Nghymru, fel y cyfeiriwyd o'r blaen yn y nodiadau hyn, "*I ba le mae uffern wedi myn'd.*" Ond os ydyw uffern yn ei hen ystyr wedi droppo allan o feddyliau dynion sydd yn meddwl, mae hi yn aros o hyd yn y credoau, y cyffesiadau ffydd a'r *Text Books* sydd yn cael eu defnyddio yn fynych mewn colegau duwinyddol. Ceidw ei lle yn ddiysgog yn nghredoau St. Athanasius, Augsburg, Dort, Westminster, yn nghyrph duwinyddiaeth Dr. Hodge a Dr. Shedd, &c. Yn llyfr Dr. Shedd ar *Dogmatic Theology*, mae yr hen farbareidd-dra Calfinaidd yn cael ei gadarnhau mewn erthygl yn cynwys 87 o dudalenau. Syna ein darllenwyr fod yr awdwr yn yr un llyfr yn dybenu a'r nefoedd mewn tair tudalen. Dywedai Dr. George Ellis unwaith y buasai yn rhaid i iawnffyddiaeth adolygu ei syniad am y Beibl, cyn y gallai adolygu ei chredoau ; a dyna'r gwaith sydd yn myned yn mlaen yn mhob man y dyddiau hyn. Mae llawer wedi ei wneud yn barod. Nid oes son bellach am y fath bethau ag etholedigaeth a gwrthodedigaeth, pencynrychiolaeth Adda, a pharhad mewn gras, &c. Maent wedi llithro o'r golwg gyda'r toiliod a'r canwyllau cyrff. Ni chlywir dadl byth mwy ar bynciau meirw fel hyn. Mae pob dyddordeb dynol ynddynt wedi darfod.

Cyfiawnhad trwy Ffydd.

Mae iawnffyddiaeth, yn nghanol yr holl gyfnewidiadau, yn caru glynu wrth yr hen dermau ; ac er mwyn gwneud hyny, y ffordd ddiogel yw gosod ystyron newydd yn yr hen ymadroddion. Pan y sonir am bechod gwreiddiol, yr oll a olygir yn fynych ydyw y syniad o nodweddion moesol yn cael eu trosglwyddo i lawr yn etifeddol (*heredity*) o genhedlaeth i genhedlaeth. Pan y meddyliwch chwi fod dyn yn pregethu Trindod o bersonau yn yr hanfod dwyfol, os ewch chwi dipyn yn agosach at ei feddwl e', cewch allan mai Trindod fach hollol resymol a diniwed sydd ganddo 'fe wedi'r cwbl—Trindod tebyg i eiddo Deon Stanley neu Mr. Haweis a Dr. Lyman Abbott ; a Thrindod ag y gall unrhyw Undodwr

ei derbyn yn galonog. Yr un fath gyda'r Iawn ac athrawiaethau eraill. Cymerer er engraifft, yr athrawiaeth o Gyfiawnhad trwy Ffydd. Beth yw cyfiawnhad trwy ffydd? Dywed Erthyglau Eglwys Lloegr: "Fe'n cyfrifir yn gyfiawn ger bron Duw yn unig er mwyn haeddedigaethau ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, trwy ffydd, ac nid oherwydd ein gweithredoedd neu ein haeddiant ein hunain." Dywed Charles y Bala: "Gweithred rasol Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist trwy ffydd i bechadur." Dywed Catecism cymanfa Westminster: "Cyfiawnhad ydyw gweithred o râd ras Duw, yn yr hon y mae yn maddeu i gredinwyr eu holl bechodau, yn derbyn ac yn cyfrif eu personau yn gyfiawn yn ei olwg." Meddai Albert Barnes: "Bwriad datguddiedig Duw i edrych ar, ac i ymddwyn at, y pechaduriaid hyny a gredant, fel pe na phechasant o gwbl, yn unig ar sail haeddiant y Gwaredwr." Wel, rhywbeth fel yna oedd y syniad goleddem ni gyda golwg ar ystyr yr athrawiaeth, ond o amgylchynedd gwahanol y dyddiau hyn, mae'r hen athrawiaeth wedi myned o dan wasgfa, ac mae'r hen ystyr wedi droppo, ac mae yn barod i dderbyn i mewn ystyr arall, a dyma hi yn ngeiriau y Parch. P. T. Forsyth, M.A., D.D., un o brif weinidogion yr Anibynwyr, a'r hwn sydd newydd ei ethol yn brifathraw Coleg Hackney fel olynydd Dr. Cave. 'Rwyf gyda phleser neillduol yn dyfynu ei eiriau, gan ei fod yn cael ei gyfrif gyda'r mwyaf uniongred yn mhlith ei frodyr. Mewn llyfr o'i eiddo yn cynwys pedair o ddarlithiau ar "Y Safle Grefyddol" mae y darnodiad canlynol:—"Mae cyfiawnhad trwy ffydd yn golygu fod gwerth dyn yn cael ei fesur yn gyfangwbl ar gyfrif nodwedd foesol ac ysprydol ei enaid, ar gyfrif ei galon a'i garicter, ac nid ar gyfrif ei berthynas ag unrhyw sefydliad pa bynag, neu ei gywirdeb gyda golwg ar unrhyw gredo. Mae perthynas dyn a Duw i gael ei fesur nid wrth yr hyn yw yn ei berthynas ag unrhyw Eglwys, ond wrth yr hyn ydyw e' yn ei berthynas â gwir air, ewyllys, a phresenoldeb Duw yn Nghrist." Wel, os mai dyma ydyw credo'r Anibynwyr, ac mae'n ymddangos i mi fel yn un gynwysfawr, nid wyf yn gallu gwel'd beth sydd yn rhwystro'r "frân" wneud ei nyth o dan gysgod y Capel Anibynol agosaf at ei thrigfa bresenol.

Beth yw bod yn Gristion?

Gofynodd rhywun unwaith i Henry Ward Beecher, "A oedd hi yn bosibl i Undodwr i fod yn Gristion?" Yr ateb parod oedd, "Mae yn ymddibynu yn hollol ar yr Undodwr." Ateb *smart*, ond nid yw yn taflu llawer o oleuni ar y mater. Cof genyf fod hwn wedi bod unwaith yn *burning question* yn ein plith ni fel enwad bychan yn Nghymru, ac yn mhlith Undodiaid yn mhob man ar yr adeg hono. Pwnc y Gynhadledd yn Nghyfarfod Blynyddol Capelygroes yn 1862 neu 1863 oedd "Beth yw Cristion." Yr oedd Owen Evans, Cefn, J. Jones, Aberdar, ac ereill ar un ochr, a Gwilym Marles fel arfer yn ymladd yn ddewr a galluog ar yr ochr arall; a'r ochr arall hono ydyw'r ochr gryfaf yn ein plith, eithaf tebyg erbyn hyn. Tuedd Undodiaid yn gystal a Thrindodiaid ddeugain mlynedd yn ol oedd gosod pwys ar gredu ryw bethau neillduol am Grist, ei fod fel Messiah yn anfonedig Duw, ei fod yn gwneud gwyrthiau, ei fod wedi adgyfodi oddiwrth y meirw mewn modd gwyrthiol, ac nad oedd gan neb hawl i'r enw Cristion ar gyfrif ei debygolrwydd moesol ac ysprydol i'r Iesu. Fel y deallwn y mater yn awr, y pwnc mawr ydyw, nid y pethau a gredwn ni *am* Grist, ond a ydym ni yn credu *yn* Nghrist? A ydym ni yn credu ynddo fel mae dyn yn credu yn ei fam sydd wedi marw, ac mae y goffadwriaeth felus am ei ffyddlondeb a'i thynerwch hi wedi bod yn allu bywiol ar ryw adeg ystormus yn ei fywyd i'w achub rhag y drwg sydd yn y byd? Os ydyw Iesu Grist yn ei gariad, yn ei dynerwch, yn nghyfoeth ei ras, a'i gydymdeimlad, yn ei fyw

ac yn ei farw, yn ddylanwad—*force*—ac yn ysprydoliaeth o'r natur yna, er yn uwch o lawer, yn ein bywyd, yna mae ein bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw, ac yr ydym yn olyniaeth gwir Gristionogion yr oesau o bob llwyth, iaith, cenedl, ac Eglwys. Yr ydwyf wedi ysgrifenu yr uchod er mwyn dwyn i fewn ar y diwedd ateb y Parch. J. M. Gibbon, gynt o Drelech, yn awr un o brif weinidogion yr Anibynwyr yn Llundain, i'r gofyniad, "Beth yw Cristion?" Yn ei *Merchants' Lecture*, a draddododd Rhag. 18, 1900, dywed fod y gwir Gristion "nid yn unig yn berson uniawn a da, ond yn un wedi ei drwytho ag ysprydoliaeth a chariad Crist." Ie, dyna 'fe, ateb digonol a chynhwysfawr, ac yr ydwyf yn ei dderbyn yr un mor galonog a syniad Dr. Forsyth ar Gyfiawnhad trwy Ffydd; ac yr wyf yn gofyn yr ail waith, beth sydd yn rhwystro'r "frân" i bigo ei thamaid ar faes yr Anibynwyr?

Y FRAN.

UNDODIAID A'R BEIBL.

GAN DEWI HIRADDUG, LLUNDAIN.

Yn nyddiau boreuaf Cristionogaeth, edrychid ar ddilynwyr Iesu o Nazareth gyda llygad tra amheus, ac ymddygid tuag atynt yn lled chwerwaidd, a hyny gan bobl a hawliant er's oesoedd lawer eu bod mewn ystyr arbenig yn blant dewisedig y Bôd Goruchaf, a than ddwylaw y rhai yr oedd gan y Cristionogion bob hawl rhesymol i ddisgwyl caredigrwydd a chydymdeimlad, yn hytrach na chasineb ac erledigaeth. Gwrthodai'r Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, a dosparthiadau coeg-sanctaidd ereill o'r Iuddewon, wneud dim â dilynwyr Iesu, rhag ofn i'r "cyfeiliornadau" crefyddol a goleddid gan y blaid newydd halogi eu duwioldeb tybiedig a llychwino eu cymeriadau fel achleswyr cyson y ffydd "uniawngred." Eithaf teg a naturiol, gan hyny, ydyw'r cyngor hwnw o eiddo'r Apostol Pedr i'w ddarllenwyr, "Byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn [parch], a chenych gydwybod dda; fel yn yr hyn y maent yn eich goganu megys drwg weithredwyr, y cywilyddio y rhai sydd yn beio ar eich ymarweddiad chwi yn Nghrist."—1 Pedr iii. 15.

Y mae ein sefyllfa ni heddyw fel crefyddwyr rhyddfrydig yn mhlith cynifer o grefyddau caeth y byd, yn debyg i eiddo dilynwyr Iesu yn mhlith yr Iuddewon a choelgrefyddwyr y Dwyrain yn yr amser gynt. Nid yn unig y mae iawnffyddwyr gan mwyaf yn gwrthod cydaddoli â ni, ac yma a thraw yn cau drysau'r capeli a'r eglwysi yn ein herbyn, ond ä llawer o honynt mor bell a gwrthod cyweithasu â ni hefyd, a safant o'r neilldu yn llygad-ruthol yn hytrach na chydweithio â ni er addysgu a dyrchafu'r werin bobl. Edrycher, er engraifft, ar ymddygiad angharedig y *Council of "Free" Churches* tuag atom yn dra diweddar. Ond gan fod genym ninau hefyd obaith, onid rhesymol yw ein bod ni bob amser yn barod ac yn alluog i roddi cyfrif deallgar am dano? Os byddwn ambell waith yn ymddangos yn chwerw, neu yn defnyddio ansoddeiriau cryfion yn ein gwrthdystiadau, gwnawn hyny, dybygaf, nid o ddiffyg add-

fwynder a charedigrwydd a pharch dyladwy i syniadau y sawl sy'n dewis gwneud eu hunain yn elynion i ni, ond o herwydd ein bod yn teimlo i'r carn yr anghyfiawnder wneir â ni, a'n dymuniad dilwgr i oleuo ein gwrthwynebwyr gyda golwg ar ein sefyllfa yn y byd Cristionogol. Onid ein harwyddair yw "Heb Dduw, heb Ddim: Duw a Digon"? Prif erthygl ein ffydd ydyw y Bôd o Dduw. Credwn yn Nuw fel Crëawdwr, fel Cynhaliwr, ac fel Tâd. Ac i'r rhyddfrydwr crefyddol, cofleidia'r frawddeg amwys "credu yn Nuw" rywbeth mwy o lawer na'r ffaith noeth fod Duw yn bod; golyga'r agweddau dymunol hyny ar fywyd a ddesgrifir gan yr Apostol fel "ffydd, gobaith, a chariad": ffydd yn nghyfiawnder a thrugaredd a daioni tragwyddol yr "Anfeidrol Ddwyfol Fôd;" gobaith am barhâd bywyd yn myd yr ysprydoedd; a chariad at y gwirionedd—y pur, y dyrchafedig, a'r da.

Cyhuddir yr Undodwr yn fynych o wrthod y Beibl. Gadewch i ni wel'd pa sail sydd i'r cyhuddiad hwn. Pan ymosodir arnom gan ein gwrthwynebwyr, hawliant yn gyffredin mai unig offeryn eu hornest yw'r "Beibl;" haerant fod y Beibl o blaid eu syniadau o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Datguddiad; ymffrostiant yn drystiog fod eu credöau ystrydebol, eu cyffesiadau ffurfiol, eu haddoliad allanol, eu ffurfioldebau ffasiynol, eu traddodiadau amrywiol, a'u rheolau caethion o lywodraeth eglwysig—yr oll yn seiliedig ar y Beibl; a datganant eu parodrwydd i orchfygu neu i gwympo gyda'r hen gasgliad hwnw o lenyddiaeth Ddwyreiniol a elwir ganddynt mor ddifeddwl yn "gyfrol ysprydoledig" a "datguddiad dwyfol!" Er nad ydym yn proffesu myned i'r eithafion yna, nac yn tybio ein bod wedi ein bendithio â mwy o oleuni ar y dirgelion ysprydol na'n cyfeillion "uniawngred;" er nad ydym am foment yn honi fod ein crefydd yn golygu crediniaeth ddàll mewn pobpeth geir yn y Beibl, eto dymunwn fod mor deg ac ystyriol tuag at ein gwrthwynebwyr fel ag i'w cyfarfod bob amser ar eu tir eu hunain.

Os edrychir yn fanwl i'r pwnc, ceir fod yr Hen Lyfr, yn enwedig y cyfieithiad diwygiedig, yn llawer mwy ffafriol i'r daliadau rhyddfrydig a goleddir gan Undodiaid y dyddiau hyn nag i'r hyn a elwir yn "iawnffyddiaeth." Lled-awgrymwch wrth y Calfiniaid nad oes gair o son yn yr Efengylau fod Iesu erioed wedi dysgu eu hathrawiaeth hwy o "gyfiawnhâd trwy ffydd" yn unig, ond odid hwy a'ch cyhuddant o gablu! Crybwyllwch wrth Eglwyswyr nad yw'r Beibl mewn unman yn son am "olyniaeth apostolaidd," a galwant chwi'n heretic peryglus, ac yn haeddu eich hesgymuno trwy felldith! Dywedwch wrth yr "iawn-ffyddwr" cyffredin nad yw'r gair "trindod" i'w gael rhwng dau glawr y gyfrol, a gŷr chwi'n bendramwnwgl i waelodion eithaf y pwll tanllyd du, yno i'ch rhostio i dragwyddoldeb! Na, nid yn y Beibl, fel y gŵyr yr Undodwr yn eithaf da, a diolch i'r Nefoedd am hyny! y mae'r athrawiaethau annynol hyn i'w cael, ond yn y credöau amrywiol sydd wedi dod allan o ddwylaw duwinyddion proffesyddol a thaledig yr Eglwysi. Pe darllenem y Beibl yn ddiragfarn, ebe'r iawnffyddwr, ni buasem byth yn gwrthod "Duw y Mab." Eto bydd ambell un yn rhyfeddu pan ddywedwn nad yw'r frawddeg hon ychwaith i'w gwel'd mewn un man yn y Llyfr. Dywedodd clerigwr wrthyf y dydd o'r blaen, os oeddwn yn amheu a yw'r Beibl yn dysgu Trindodiaeth ar i mi droi i Epistol cyntaf Ioan, y bumed benod a'r seithfed adnod. Ond, chwedl hen ddiareb, "ci hen yw ci Morgan"! Gwyddwn amcan y gŵr sanctaidd yn rhy dda Estynais o'm llogell fy *Revised Version*, a throais i'r man a'r lle crybwylledig. Darllenais. "Gadawsoch un adnod allan," meddai'r clerigwr. Darllenais drachefn, yn fwy gofalus y tro hwn. "*Allow me, sir!*" ebai'r parchedig gyfaill, dipyn yn ddiamyneddgar—"*Allow me to read it to you.*".....Ow, ow! Gwell i mi beidio desgrifio'r troellysgogiadau digrif yr aeth gwynebpryd difarf

ei barchedigaeth trwyddynt pan yn chwilio am y geiriau adnabyddus, "y Tâd, y Gair, a'r Yspryd Glân"! Druan o hono, wyddai efe ddim fod y cyfieithwyr newydd wedi gadael "adnod y Drindod" allan o'r Beibl..... Welais i byth mo hono ef wed'yn!

Dengys hyn, ynte, y pwysigrwydd o arfogi ein hunain â gwybodaeth ysgrythyrol, a thrysori yn ein cof ddyfyniadau cynwysfawr o'r Beibl mewn trefn i wrthsefyll ein gwrthwynebwyr. Ond gan mai meddyldrych mawr y Trindodwr "uniawngred" am grefydd yw dodi ei enw wrth gredo hwn neu gredo'r llall, tybia hefyd ar yr un egwyddor, pan yn dyfynu adnodau o'r Beibl i amddiffyn rhyw athrawiaeth, ei fod yn ufuddhau yn llythyrenol i gyngor Paul yn ei Epistol at yr Ephesiaid (vi. 13–17). Y syniad cyffredin yw mai'r hyn olygir wrth "air Duw" yn y fan hon fel mewn manau ereill, yw'r Beibl yn unig. Ond i mi y mae pob gair da yn air Duw; y mae pob gwirionedd yn air Duw; y mae'r grëadigaeth yn air Duw. Chwedl Ceiriog—

"Beth yw'r grëadigaeth
Ond Beibl arall Duw?"

Y mae Anian drwyddi draw yn air Duw—pob blodeuyn, pob deilen, pob glaswelltyn, onid y'nt yn llefaru'n hyawdl eiriau tragwyddol Duw? Adar aneirif yr awyr, holl fwystfilod y goedwig, holl anifeiliaid y maes, pysgod y dyfroedd, ac ymlusgiaid y pridd—beth y'nt ond Gair Duw, iaith yr Anfeidrol Fôd? "Cleddyf yr yspryd yr hwn yw gair Duw"—ffydd ddisigl yn nghyfiawnder, doethineb, a chariad Duw; llwyr-ymddibyniad arno, a hyder cadarn, disigl ynddo. Eithaf dymunol, y mae'n wir, ydyw meddu parodrwydd i ateb gwrthwynebiadau a chamddesgrifiadau a ddygir yn mlaen yn erbyn ein syniadau personol, a bod o honom yn abl i wrthsefyll yn llwyddianus yr ymosodiadau arnom a'r cyhuddiadau wneir yn ein herbyn yn fynych yn y wasg ac yn y pwlpud. Ond dysg y Beibl yn ddiamwys nad yw hyawdledd areithyddol, nac arddull swynol o ysgrifenu ac ymresymu, ynddynt eu hunain, yn ffurfio rhan o gwbl yn nghrefydd gwir ddilynwyr Iesu o Nazareth. Nid yw bod yn alluog i siarad yn ffraeth o blaid unrhyw athrawiaeth grefyddol o angenrheidrwydd yn arwydd ynddo'i hun o wir grediniaeth yn yr athrawiaeth hono. Y mae digon o ddynion yn medru amddiffyn ar air a rhesymeg holl athrawiaethau a gosodiadau "Cyffes Ffydd" y Methodistiaid Calfinaidd, a gweithiau y Tadau boreuol; medrant ddadlu yn llithrig ar ran anffaeledigrwydd llythyrenol y Beibl, a'i wylio yn wyneb "ymosodiadau dinystriol" beirniadaeth resymol yr oes. Ond nid yw hyny drachefn o angenrheidrwydd yn golygu eu bod hwy eu hunain yn grefyddol yn ystyr oreu'r gair. Buasai'n well genyf fi ganwaith symlrwydd a hyder ffyddiog yr hen wreigan dlawd sydd yn *byw* ei ffydd, na holl ddysg a hyawdledd y coegyn "uniawngred" sydd mor fedrus yn amddiffyn credöau ffasiynol y dydd, tra ar yr un pryd yn ymddwyn fel pe b'ai heb Dduw yn ei fuchedd ac heb lewyrch o oleuni yspryd yn ei feddwl na gronyn o gariad yn ei enaid.

Camgymeriad dybryd yw dyweyd fod yr Undodiaid yn anmharchu'r Beibl. Yn hytrach, anturiaf ddyweyd ein bod fel enwad yn tra ragori ar yr enwadau "iawnffyddol" yn ein parch tuag ato. Gwnawn bob ymdrech resymol i'w ddyrchafu yn meddwl y bobl—i'w cael i'w ddarllen yn ofalus fel llyfrau da ereill, ac i ymdrechu ei ddeall, i efelychu ei esiamplau crefyddol a moesegol, ac i dderbyn ei egwyddorion a'i wirioneddau, a chymhwyso ei gynghorion a'i gyfarwyddiadau addysgiadol. Pa barch mwy ellid dalu iddo? Nid ydym, wrth reswm, yn gofyn i'r bobl *addoli* y Beibl dan boen cospedigaeth dragwyddol; nid ydym yn eu cymhell i ffugio crediniaeth ddàll yn yr athrawiaeth fod pob gair a sill sydd ynddo wedi deillio'n uniongyrchol a llythyrenol o enau dwyfol yr Anfeidrol, ac o ganlyniad yn berffaith gywir ac anffaeledig. Nid ydym chwaith

yn dehongli'r Beibl mewn dull cul ac anystwyth, yn ol ein mympwy ac er ein budd personol, gan haeru'n benderfynol mai ein dehongliad *ni* yw'r unig ddehongliad cywir. O na, credwn mai nid "parchu'r Beibl" yw ymddygiad o'r fath. Camddefnydd yw, ac y mae camddefnyddio'r Beibl mewn oes oleu fel hon yn sicr yn gyfystyr a'i anmharchu. Pell fo fy mwriad o feio neb am geisio esponio a dehongli'r hen Lyfr oreu gallo; y mae gan bawb yr un hawl, er efallai nad yr un cymhwysderau, i hyny; ond nid oes gan neb nac unrhyw sect sail dros haeru mai eu hesponiad arbenig *hwy* yw'r unig un cywir, ac fod yn *rhaid* i bawb arall dderbyn y cyfryw esboniad neu ynte drengu mewn ffwrn o dân! Oblegyd dyna'n llythyrenol wneir yn fynych yn y dyddiau hyn gan amryw o'r enwadau iawnffyddol, y rhai ydynt yn ddigon rhyfygus i alw triniaeth o'r fath yn "barch at y Beibl"! Nid ydwyf yn honi fod ein crefydd ni fel enwad yn hollol seiliedig ar y Beibl, ac ar y Beibl yn unig; buasai hyny yn anmhosibl, yn enwedig pan gofiwn fod cynifer o gyfundrefnau "crefyddol" ag ydynt yn anghyson a'u gilydd mewn ymarferiad yn maentumio mai'r Beibl yw eu hunig sylfaen, trwy ddefnyddio adnod yma ac adnod acw, neu ddyfynu brawddeg o'r fan hon a pharagraph o'r fan arall, i brofi eu daliadau, yn ddibris o'r cyd-destyn ac heb un ystyriaeth o'r amgylchiadau dan y rhai yr ysgrifenwyd neu y llefarwyd hwynt. Dyna ydoedd dull Martin Luther, ac y mae cannoedd yn ei efelychu. Os na welai Martin fod adnod neu epistol yn ffitio ei gynddrych ef ac yn cyd-daro â'i ragfarn, gwrthodai y cyfryw yn ddiseremoni. Seiliodd ei syniad am grefydd ar yr Epistol athrawiaethol at y Galatiaid, ond taflodd ymaith fel "gwellt" Epistol ymarferol Iago. Eithr os nad ydym yn glynu wrth lythyren y Beibl, canfyddwn fod ein crefydd yn tarddu o'r un Ffynonell, ac yn seiliedig ar yr un sylfaen ddwyfol a'r Beibl ei hun, yn gymaint a'i bod yn cydfyned â'r Beibl ar y cyfan, ac yn gyson â'i yspryd. Cydnabyddwn mai yn y Beibl y ceir y dadguddiad goreu a chyflawnaf y gwyddom ni am dano o ysprydolrwydd crefydd, a'r darlun prydferthaf o gymeriad moesol Duw a pherthynas dyn âg Ef. Credwn fod crefydd yn ei hystyr oreu, yn nghyda thuedd a dymuniad creddfol i addoli yr Anweledig, yn elfen hanfodol yn natur dyn, ac felly yn bodoli er's oesoedd cyn bod yr un beibl—yn wir, canfyddwn nad yw'r Beibl yn amgen na datganiad o ddyhëadau yr enaid wedi iddo ymddeffro i sylweddoliad o'i berthynas â Duw, a'i ymddibyniad arno. Nid gwrthod y Beibl yr ydym, ond gwrthod y dehongliadau roddir iddo gan "esponwyr" a phersonau neillduol mewn trefn i gyrhaedd eu hamcanion eu hunain.

Safwn yn ddewr, ynte, dros egwyddor hanfodol Protestaniaeth, sef hawl pob person unigol i farnu drosto'i hun, yn annibynol ar esponwyr, offeiriaid, a phob coeg-awdurdod hunan-osodedig arall.

EIN HEGLWYSI.

Gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen.

Nid yw ein heglwysi mor flodeuog a nerthol mewn dylanwad ag y dylent fod. Cyfyd hyn oherwydd esgeuluso dod ac anystyriaeth y mwyafrif o'r aelodau. Mae manteision aruchel a chyfleus yn ychwanegu yn ddirfawr at gyfrifoldeb dyn. Trwy iawn-ddefnyddio yr aneirif fanteision daionus gellir eu gwneud yn risiau o esgyniad at wybodaeth eangach, ddefnydd-

ioldeb glanach, anrhydedd sancteiddiach, a dedwyddwch purach; trwy eu hanwybyddu a'u hesgeuluso fe'u gwneir yn risiau o ddisgyniad i fywyd o segurdod ac oferedd. Beth yw hanes yr hwn sy'n esgeuluso ein cyfarfodydd addoliadol? Mae'n colli golwg ar werthfawredd undeb crefyddol, ac yn aml yn crwydro i diriogaethau isel mewn moes a buchedd.

Tybia ambell un, gyda rhyw hunan-foddhad llesmeiriol, nad oes eisiau mynychu capel nac eglwys er byw'n dda, er sicrhau dedwyddwch, ac er talu gwarogaeth i awdwr a chynhaliwr bywyd am ei fara beunyddiol. Os nad yw mynychu addoldai yn anhebgorol angenrheidiol er sicrhau meddiant o nefoedd i'n heneidiau anfarwol, y mae yn ymylu ar fod felly. Cyfaddefwn fod yna bosiblrwydd i ddyn ddal cymundeb a'i Dad ar y maes agored, ac i uno a thelynorion mân y goedwig i ganu molawd o ddiolchgarwch i'r Arglwydd; ond tybed a yw'r hwn sy'n rhodiana, hyd yn nod dros ddolydd meillionog a meusydd ffrwythlon, yn gwneud hyny? Lled ofnwn fod rhodianwyr Sabbothol yn anghofio Duw ac yn troi yn hollol glust-fyddar i alwadau taerion yr Efengyl. Pwy yw'r dynion, ar gyfartaledd, sydd yn rhodio agosaf at Dduw? ai nid mynychwyr cysonaf a didwyllaf ein heglwysi? Beth yw amcan penaf addoliad cyhoeddus? ai nid i wella dyn yn gymdeithasol, moesol a chrefyddol? Yn y capel y ceir help i ddatblygu ein hunain ar lun a delw Duw, i buro ein meddyliau, i sancteiddio ein calonau, i awchlymu ein serchiadau at bethau ysbrydol, ac i nertholi ein cymeriadau. Os am dderbyn nerth a chynorthwy personol i gyflawni ein dyleddswyddau beunyddiol gyda gonestrwydd a phurdeb, rhaid talu ymweliadau cyson a'n heglwysi.

Nid yn unig yr ydym yn derbyn bendith bersonol trwy fynychiad cyson yn yr addoliad, ond yr ydym trwy hyny yn rhoddi nerth a chadernid i'r eglwys. Os oes genym barch i'n daliadau crefyddol, i'n hen dadau a'n hen famau duwiolfrydig, ac i'n Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, rhoddwn ein presenoldeb, gyda chysondeb yn ein gwahanol addoliadau, er eu gwneud yn nertholach a chadarnach mewn dylanwad. Gresyn meddwl fod cynifer yn hepian a chysgu uwch ben y pentan foreu Sul yn hytrach na cheisio cadw drws agored yn nghapel anwyl eu tadau a'u mamau. Trist yw'r ymwybyddiaeth fod rhieni yn cyflwyno esiamplau afiach i'w plant. Galarus yw sylwi fod ein hieuenctyd yn derbyn mwy o fwynhad ar gefn yr olwyneg brydnawn Sul nag yn yr Ysgol Sabbothol. Yn awr yw'r amser cymeradwy i wella yn y cyfeiriad hwn.

Yr ydym hefyd yn rhy anystyriol wrth addoli. Mae genym ddigon o swn addoli ond dim addoliad; ein defodaeth yn gryfach na'n crefyddolder—yn meddu ar rith duwioldeb heb ei grym. Gellir casglu beth yw ansawdd calon dyn oddiwrth destyn ei ymddyddan. Beth yw testyn ymddyddan mwyafrif o'r aelodau wrth ddychwelyd gyda'u gilydd o'r capel? Ai nid y gwartheg, y ceffylau, y ffair, a phethau tebyg? Rhy anystyriol yn wir. Beth yw ein hamcan wrth fyn'd i'r capel? Gofynwyd y cwestiwn hwn i hen wraig garedig un tro, ac atebodd, "nid wyf yn ystyried fod unawd yn ddigon o dal i'r Arglwydd am ei holl fendithion, felly rhaid cael anthem." Gadewch i ninau amcanu'n dda wrth fyn'd i'r addoliad, a bod yn onest gyda'r gwaith cysegredig. Rhoddwn ein calonau yn drylwyr yn ngwasanaeth y cysegr, ac yna cawn deimlo fod ein heglwysi yn cryfhau mewn bendith a dylanwad.

Peth arall, nid ydym yn ddigon gweithgar. Nid oes dim fedr ddigaloni eglwys fel pwlpud dilafur a difywyd; ac o'r ochr arall, nid oes dim fedr ladd ysbryd y weinidogaeth fel eglwys ddiwaith a diymdrech. Ein tueddfryd yw ysgwyddo'r beichiau ar rywun arall. Y gweinidog sy'n gyfrifol am bob peth mewn ambell eglwys; heb bregethwr, heb wasanaeth. Mewn difrif, beth ellir ddweyd am eglwysi sy'n analluog i gynal tipyn o wasanaeth foreu Sul yn

absenoldeb y gweinidog? A yw ein gweddiwyr wedi diflanu o'r tir? Os am wneud ein heglwysi yn anorchfygol, rhaid i'r aelodau ymarfer wrth yr orsedd neu fabwysiadu rhyw gynllun arall i gynal y gwasanaeth yn absenoldeb y pregethwr. Meddylier am ein Hysgolion Sabbothol—magwrfa cewri y dyfodol, *nursery* yr eglwys. Gwaith pur anhawdd yw cael athrawon y dyddiau hyn. Rhaid teimlo mwy o ddyddordeb yn ngwaith Duw ac yn yr achos Undodaidd os am lwyddo yn ystod y ganrif newydd sydd wedi gwawrio arnom. Cofier hefyd nas gellir cynal ein heglwysi ar y briwsion sydd yn syrthio oddiar fyrddau blys. Heddyw gwneir apel wresog at holl eglwysi Cymru i gasglu at drysorfa sydd yn amcanu ysgafnhau beichiau ein heglwysi gweiniaid yn y dyfodol. Gobeithio y gwnawn ein goreu gyda'n gilydd fel y ca rhywrai fedi yn helaeth o ffrwyth ein llafur.

COLOFN Y PLANT.

ARWYDDAIR.—"*Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni.*"

ANWYL BLANT.—Er eich budd cyflwynaf i'ch sylw y stori ganlynol, a adroddwyd gan ddyn da o'r enw Jeremy Taylor, yr hwn a fu, tua'r flwyddyn 1645, yn cadw ysgol yn Sir Gaerfyrddin.

Un diwrnod oer, yn nghanol y gauaf, pan yr oedd eira gwyn yn gorchuddio'r meusydd, gwelodd Abraham hen wr pedwar ugain oed, yn rhodio'n araf ar hyd yr heol. Yr oedd yr hen wr yn pwyso'n lluddedig ar ei ffyn, ac wedi ei ddilladu mewn dillad carpiog. Ymddangosai fel pe yn newynu, heb gâr na chyfaill, ie, "heb orweddfan ond yr heol, heb un cartref ond y nos." Tosturiodd Abraham wrtho, a rhoddodd wahoddiad caredig a chynes iddo i'w dŷ.

Arferiad plant, yn aml, yw gwawdio hen wŷr a hen wragedd di-gartref. Nid yw plant, fel rheol, yn dueddol i gydymdeimlo a'r crwydriaid carpiog sy'n tramwyo ein heolydd, ac y mae ymddygiad trugarog Abraham yn yr amgylchiad hwn yn estyn gwers i ddarllenwyr ieuainc yr YMOFYNYDD, i ddangos caredigrwydd a pharch hyd yn nod i'r "*tramp* digartref,—unig, oer, fel grug y rhos."

Wedi gwahodd yr hen ŵr i'r tŷ, huliwyd y bwrdd a'r moethau goreu o'i flaen, a cheisiwyd ganddo helpu ei hun a'r pethau a ddarparwyd iddo. Aeth y truan at y bwrdd, a dechreuodd fwyta heb gymaint a chodi ei olygon tua'r nef i ddiolch am y fendith. Gofynodd Abraham yn gyffrous, paham na fuasai yn cydymffurfio ag arferiadau y wlad, ac yn talu diolch i Dduw am yr ymborth? Atebodd yr hen wr, yn siriol, "nid wyf yn hyddysg yn yr arferiadau, ac nid oes genyf un Duw ond y tân, oblegyd pagan wyf."

Cynhyrfodd yspryd Abraham o'i fewn, a darfu iddo ddanfon yr hen wr allan i'r heol cyn ei ymgeleddu—Abraham yn digio oherwydd fod arferiadau crefyddol yr hen wr yn wahanol i'w eiddo ef!

Yn ol y stori, sibrydodd yspryd Duw wrth Abraham, a gofynodd iddo, paham y gwnaeth felly a'i frawd mewn caledi? "O," meddai Abraham mewn atebiad, "am nad yw yn ufuddhau i'r hen arferiadau, ac yn addoli ein Duw ni."

Ceryddodd Duw Abraham am ei anghariad tuag at hen dad o bagan mewn angen, a dywedodd wrtho, "yr wyf fi wedi ei ddioddef am bedwar ugain mlynedd, er na ddarfu iddo blygu glin erioed ger fy mron; ond ti a'i herlidiaist yn unig oherwydd gwahaniaeth mewn barn." Gwelodd Abraham ei gamsyniad, edifarhaodd, rhedodd i'w gyrchu yn ol, a dangosodd bob parch iddo a chydymdeimlad tuag ato.

Plant i Dduw yw pawb, ac nid yw yn *right* i ddiystyru neb oherwydd gwahaniaeth mewn syniadau crefyddol. Mae Duw yn trugarhau o hyd; felly gwnawn ninau. Mae Duw yn gwenu ar y truan a'r cystuddiol yn barhaus; gwnawn ninau yr un peth, er i ni gynyddu mewn doethineb a ffafr gyda Duw a dynion. Dywedodd Iesu Grist, "byddwch berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Os ydym am ufuddhau i gais yr Iesu rhodiwn yn unol a chyfarwyddyd yr Efengyl—"i wneud i eraill fel y dymunem i eraill wneud i ninau."

Gellionen. T. J. JENKINS,

HERCULES A'I DDEWISIAD.

Un o arwyr cenedl Groeg oedd Hercules. Adroddir yr hanesyn canlynol am dano pan yn ieuanc.

Un diwrnod, daeth i ddyffryn tawel, ac yn fuan, daeth i fan lle'r oedd dwy heol yn cwrdd. Pan eu gwelodd, bu am beth amser mewn amheuaeth pa un o honynt i ddewis.

Yn union, gwelodd ddwy fenyw dal yn dod ato ar hyd y ddwy heol. Yr oedd un yn brydferth a siriol, ac wedi ei haddurno yn ddestlus. Yr oedd y llall a'i hwyneb wedi ei baentio, er ymddangos yn fwy prydferth nag oedd mewn gwirionedd, gyda llygaid bywiog a gwisg orwych.

Cerddai y gyntaf yn araf a gwylaidd; ond rhedai y llall yn fywiog, er cael y gair cyntaf gyda Hercules. Pan ddaeth ato, anerchodd ef fel hyn —"Gwelaf dy fod mewn amheuaeth pa ffordd i ddewis; os gwnei fi yn gyfeilles i ti mi a'th arweiniaf ar hyd ffordd hyfryd ac esmwyth, lle y cei brofi pob dedwyddwch, a byw'n rhydd oddiwrth bob gofid. Ni chei glywed am ryfeloedd a masnach, ond treulio dy holl amser yn nghanol cyflawnder o'r hyn sydd yn hyfryd i'w fwyta ac i'w yfed, ac yn mhlith cwmpeini llawen, heb un gwaith i'th flino."

Ar ol clywed hyn, gofynodd Hercules, "Beth yw dy enw?" Atebodd hithau, "mae fy nghyfeillion yn fy ngalw yn ddedwyddwch, ond fy ngelynion a'm galwant yn ddrygioni."

Ar hyn, daeth y fenyw arall yn mlaen, a dywedodd, "Hercules, yr wyf finau, hefyd, yn dod atat, gan fy mod yn adnabod dy rieni a thithau er yn blentyn; ac yr wyf yn gobeithio, gan hyny, y deui gyda mi i geisio am yr hyn sydd wir brydferth ac anrhydeddus. Ond ni wnaf dy dwyllo a geiriau mwyn, ond dangosaf i ti beth sydd wirionedd. Ni cha dynion yr hyn sydd dda a phrydferth heb ymdrech a llafur. Os wyt am gael dy garu gan dy gyfeillion, rhaid i tithau ddangos caredigrwydd i'th gyfeillion; os ewyllysi gael dy anrhydeddu gan unrhyw ddinas, rhaid i ti wasanaethu y ddinas; os ceisi ffrwyth o'r ddaear, ac am gynydd yn dy anifeiliaid, rhaid i ti wrteithio y ddaear, a gofalu am dy anifeiliaid; os ewyllysi i'th gorff i wasanaethu dy feddwl, rhaid i ti arfer dy gorff a llawer o waith."

Yna dywedodd Drygioni wrtho, "Hercules, oni weli mor hir yw'r llwybr ar hyd yr hwn y mae'r fenyw hon yn bwriadu dy arwain, cyn y daw dedwyddwch i'th ran. Mae fy llwybr i yno yn fyr a hawdd."

Yna atebodd Rhinwedd, "O, fenyw wael! pa ddaioni sydd genyt ti i'w

gynyg? neu, beth wyddost ti am ddaioni a'i ffrwyth? Yr wyt ti yn bwyta cyn dy fod yn newynog, ac yn yfed cyn dy fod yn sychedig. Rhaid i ti gael gwinoedd drudfawr, a gwleddoedd mawrion. Nid yw cwsg yn dod atat yn naturiol, oherwydd nid gwaith, ond seguryd, sydd yn peri i ti ddymuno am gwsg. Mae dy holl bleserau yn anaturiol. Er dy fod yn un o'r anfarwolion, yr wyt wedi dy wrthod gan y duwiau, ac wedi'th ddianrhydeddu gan ddynion. Yr wyt yn fyddar i bob gwir gerddoriaeth, yn ddieithr i ganmoliaeth cydwybod dawel, yn ddall i bob peth sydd yn wir brydferth. Pwy fedr gredu dy air? Pwy a'th gynorthwya mewn caledi? Mae dy gyfeillion, pan yn ieuanc, yn wan; pan yn hen, yn ddisynwyr."

"Ond yr wyf fi," meddai yn mhellach, "yn gwmnies i'r duwiau, ac i bob dyn da. Nid oes dim sydd wir brydferth yn cael ei wneyd hebof. Mae pob gweithiwr yn fy ngharu fel cydymaith ffyddlon. Mae fy nghyfeillion yn cael digon o bob peth sydd eisieu arnynt er boddloni eu hanghenion corfforol. Mae eu cwsg yn felus am eu bod wedi ei enill trwy waith. Mae'r ieuainc yn llawenychu wrth glywed eu hynafiaid yn cael eu canmol; a'r hen yn ymhyfrydu wrth weled ymdrechion yr ieuainc; ac yn y diwedd, ni raid i'm cyfeillion i orwedd i lawr mewn anghof; ond, fel blodeuyn mae'r adgof am eu bywyd yn taflu ei beraroglau hyfryd dros fywydau dynion eraill. Hercules, mae genyt gyfleustra, trwy ymostwng i lafur caled, i enill gwynfyd anfarwol."

Dewisodd Hercules ffordd Rhinwedd, yr hon a ddygodd iddo yntau yn y diwedd goron y bywyd ac anfarwoldeb.

Y Gofyniadau am Mehefin.

1. Yn mha un o'i ddamegion y dysg Iesu i ni pwy yw ein cymydog?
2. Yn ol y ddameg, pwy ydyw ein cymydog?

Faint wyddoch am y tri pherson y sonir am danynt yn y ddameg?

Nodyn.—Pob gohebiaeth ar gyfer y golofn hon i'w hanfon i'r *Parch. D. Evans, Cribyn, Llanybyther.*

ARHOLIAD BLYNYDDOL YR YSGOL SUL, 1901.

Cymerodd y pumed Arholiad le nos Wener, y 12fed o Ebrill, mewn un-arddeg o *centres* yn Sir Aberteifi, a thair yn Sir Forganwg. Nid oes ond un Ysgol Sul yn Sir Aberteifi heb gael ei chynrychioli yn yr Arholiad eleni, a gadawn i'r darllenydd gyfrif absenolion Sir Forganwg. Mae y tair sydd yn bresenol wedi gwneud yn ardderchog, ond pa le mae y gweddill tybed?

I Ysgol Sul Gellionen y perthyn yr anrhydedd eleni eto o fod ar ben y rhestr mewn nifer yr ymgeiswyr llwyddianus, ac i David Jones, Rhydygwin, y perthyn yr anrhydedd o fod y goreu yn yr Arholiad. Dywed yr arholwr cyffredinol mai ei bapyr ef ydyw y goreu o ddigon, ac haedda sylw anrhydeddus. Mae cyfanrif yr ymgeiswyr llwyddianus wedi chwyddo yn sylweddol eleni; 239 oedd y nifer y llynedd, tra y mae 312 eleni. Blin ydyw canfod, er hyny, mor lleied sydd wedi cynyg am y safonau uchaf. Beth ydyw y rheswm am hyn? A ydyw ein gweinidogion yn gwneud yr oll allant er cefnogi a chynorthwyo aelodau eu Hysgolion Sul er ymgeisio am y Safonau hyn. Os na chawn ymgeiswyr yn y rhai hyn, ni cheir hefyd athrawon llwyddianus yn ein

Hysgolion. Canmoliaeth ddigymysg geir gan yr arholwyr fu yn y gwahanol fanau. Y mae un o honynt yn awgrymu, ac yn iawn hefyd, feddyliem, y dylesid cael *map* mawr o Palestina ar fur pob ysgoldy.

Mae y diolchgarwch gwresocaf yn ddyledus i'r holl arholwyr fu yn ymweled a'r gwahanol ysgolion, ac yn neillduol i'r arholwr cyffredinol—y Parch. Jenkyn Thomas, Pendleton.

Mae Maes Llafur y flwyddyn nesaf eisoes yn y Wasg, a gobeithio na wna ein pobl ieuainc laesu dwylaw.

T. ARTHUR THOMAS,

Ysg. Adran yr Ysgol Sul.

RHYDYGWIN.—ARHOLWR: PARCH. E. E. JENKINS.

Cyfanrif 19.

Safon I.—Dosparth I.—Gwilym Saunders Davies, Joseph Jones, Henry Owen, Anne Evans, Anne Saunders Davies, Gwen Jones, Mary Anne Jones.

Safon II.—Dosbarth I.—John William Davies, William Thomas Davies, Jenkyn Samuel Davies, Thomas William Jones, Isaac Daniel Jones, Thomas Lewis Jones, Rachel Evans, Catherine Ellen Jones, Catherine Williams, Mary Lewis.

Safon IV.—Dosparth I.—*David Jones, *William Jones.

ALLTYPLACA.—ARHOLWR: MR. J. ISLAN JONES.

Cyfanrif 11.

Safon I.—Dosparth I.—Mary Griffiths, Gwen Davies, Hannah Evans, Anne Griffiths, Mary Evans, John Evans, John Jones, Tom Walter Thomas, *Anne Evans.

Safon II.—Dosparth I.—*Martha Jane Williams, Mary Evans.

BWLCHYFADFA.—ARHOLWR: PARCH. T. ARTHUR THOMAS.

Cyfanrif 25.

Safon I.—Dosparth I.—David Davies, James Jones, David Thomas, Hannah Timothy, Elizabeth Hannah Griffiths.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Hannah Thomas (Bwlchybryn), Ellen Thomas, Anne Evans, Sarah Jane Thomas, Mary Anne Jones, Mary Anna Thomas (Llaindelyn), Mary Evans, Elizabeth Thomas, Mary Jane Griffiths, Ellen Davies, Lizzie Anne Thomas, David Thomas, James Oliver Lewis, Evan Tom Lewis, Tom Richards, Enoch Evans, Johnny Thomas.

Safon III.—Dosparth I.—*Margaret Davies, Sarah Davies, Frances Jones.

HEN DY CWRDD, ABERDAR.—ARHOLWR: PARCH. D. EVANS, CWMBACH.

Cyfanrif 24.

Safon I.—Dosparth I.—*Richard Davies, *James Ivor Davies, *William Thomas Davies, *Elizabeth Ann Morgan, *Mary Morgan, *Myfanwy Lewis, *Rachel Evans, *Maggie Mary Davies, David Phillips, Evan Edwards, Christopher Edwards, Maggie Lloyd, Catherine Griffiths, Edith Griffiths, Maggie Griffiths, Hannah Lloyd.

Safon III.—Dosparth I.—Danie Davies, John Davies, William R. Evans, D. Tyssul Davies, Catherine Evans, Mary Davies, David Davies, Catherine Jenkins.

---

*Dynoda * eu bod wedi pasio gydag anrhydedd.*

LLWYNRHYDOWEN.—ARHOLWR : MR. T. G. THOMAS, TALGAREG.

Cyfanrif 19.

Safon I.—Dosparth I.—Richard Davies, Anne Davies, Elizabeth Griffiths, Hannah Griffiths, Eliza Jane Jones, Mary Ellen Jones, Mary Anna Jones, Eleanor Evans, Hannah Davies.

Safon I.—Dosparth II.—William Lloyd, David Evans, David Williams.

Safon II.—Dosparth II.—David Lloyd, Griffith Davies, Mary Ellen Jones, Jane Davies, Eleanor Evans.

Safon III.—Dosparth I.—*Dinah Jones.

Safon IV.—Dosparth I.—Dinah Jones.

CAPELYGROES.—ARHOLWR : PARCH. R. C. JONES.

Cyfanrif 16.

Safon I.—Dosparth I.—*Mary Grace Jenkins, *Dan Jones, *Margaret Ellen Evans, Evan Evans, Timothy Evans.

Safon I.—Dosparth II.—James Davies, Judith Mary Davies.

Safon II.—Dosparth I.—*Mary Grace Jenkins, *Timothy Evans, *Dan Jones.

Safon II.—Dosparth II.—James Davies, Judith Mary Davies, John Jones, Evan Jones.

Safon III.—Dosparth I.—Margaret Jane Evans.

Safon III.—Dosparth II.—Sarah Jones.

CAPELYBRYN A SYCHBANT.—ARHOLWR : MR. J. R. THOMAS, PONTSHAN.

Cyfanrif 29.

Safon I.—Dosparth I.—Evan James Richards, David Lloyd, David Williams, Tom Richards, Mary Jones, Mary Anne Jenkins, Sarah Hannah Jones, Lizzie Thomas, Mary Price, Sarah Jones, Margaret Ann Jones, Jane Richards, David Jones, David Williams, Samuel Vernon Evans, Tom Jones, John James Evans.

Safon I.—Dosparth II.—David John Thomas, Evan Thomas, Jane Ceridwen Thomas, Esther Myfanwy Thomas.

Safon II.—Dosparth I.—Sarah Lloyd, Mary Thomas, Margaret Thomas, Rachel Davies, Sarah Jane Richards, John Jenkins, Evan Evans, John Daniel Jones.

BRONDEIFI.—ARHOLWR : PARCH. LEWIS WILLIAMS.

Cyfanrif 26.

Safon I.—Dosparth I.—Ivee Davies, Enoch Davies, Gwilym Williams, Evan David Davies, John Parry, Gwladys Evans.

Safon I.—Dosparth II.—Emlyn Price, Polly Jones.

Safon II.—Dosparth I.—*Evan Walter Davies, *Stanley Price, *David Gomer Rees, *David Jones, Tom Jones, David Davies, Terwyn Davies, Arthur James Price, Tom Parry, Tom Davies, Mary Anne Evans, Elizabeth Davies, Sarah Blodwen Rees.

Safon III.—Dosparth I.—*Hannah Davies.

Safon IV.—Dosparth II.—Johnny Davies, Stephen Parry, David L. Davies, Dinah Jones.

TREBANOS.—ARHOLWR : MR. E. J. THOMAS, ABERTAWE.

Cyfanrif 42.

Safon I.—Dosparth I.—*Lizzie Anne Jones, *Elizabeth Hannah Hopkin, Hannah Lewis, Winnifred Morgan, Isaac Hopkin, Mary Louisa Rock, Dinah Morgan, Elizabeth Anne Morgan, Benjamin Ivor Davies.

Safon I.—Dosparth II.—Gwendoline Morgan, Daliah Saunders, Willie Saunders, Elizabeth Anne Hopkin, Bessie Rees, Margretta Bowen.

Safon II.—Dosparth I.—*Noah Lewis Davies, *Margaret J. Morgan, *Elizabeth Glasbrook, *Bessie Saunders, *William J. Morgan, *William J. Bowen, *Willie Lewis, *Daniel Bowen, *Arthur Bowen, *Maggie Bowen, *Idris Williams, William J. Bevan, Lewis William Rees, Evan Morgan.

Safon II.—Dosparth II.—Harriet Morgan, Morfydd Williams, Bessie Giddings.

Safon III.—Dosparth I.—Joan Davies, Mary Jones, Rachel Anne Bowen, Elizabeth Bevan, Prosser Thomas, William D. Bowen.

Safon IV.—Dosparth I.—B. Banos Davies, T. W. Davies.

Safon IV.—Dosparth II.—John J. Williams, John Hopkin.

CAERONEN.—ARHOLWR : MR. E. GWILYM EVANS, B.A.

Cyfanrif 17.

Safon I.—Dosparth I.—*Sarah Jane Evans, Rees William Rees, *Benjamin Rees, David Llewelyn Rees, *Violet A. Evans, *Mary Rees, *David Evans, *David Jones, *Daniel Jenkin Thomas.

Safon II.—Dosparth I.—Mary Rees, Violet A. Evans, David Jones, *Daniel Jenkin Thomas, David John Jones, David Evans.

Safon III.—Dosparth I.—*Anne Davies.

Safon IV.—Dosparth I.—M. A. Davies.

CRIBYN.—ARHOLWR : MR. E. J. WILLIAMS.

Cyfanrif 35.

Safon I.—Dosparth I.—*David Davies, *John James Evans, *Ebenezer Davies, *Johnny Evans, *Annie Davies, *Jane Lloyd, James Hughes, Joshua Evans, Stephen Hughes, Ellen Hughes, Sarah Hughes, Elizabeth Davies.

Safon I.—Dosparth II.—Mary Ellen Jones, Annie Scott, John Davies.

Safon II.—Dosparth I.—*John Daniel Jones, *Owen Lloyd Jones, *Daniel Evans, *Maggie Jones, *Hannah Davies, *Rachel Evans, *Martha Evans, *Mary Howells, Willie Davies, Rees Jones.

Safon II.—Dosparth II.—James Evans, E. F. Morgan Thomas, Anne Jones, Mary Richards.

Safon III.—Dosparth I.—*Anne Jones, *Elizabeth Davies, *Griffith Jones.

Safon IV.—Dosparth I.—Griffith Jones.

Safon IV.—Dosparth II.—Elizabeth Davies, Anne Jones.

CWMBACH.—ARHOLWR : MR. D. T. DAVIES, ABERDAR.

Cyfanrif 17.

Safon I.—Dosparth I.—John William Evans, Annie Phoebe Evans.

Safon I.—Dosparth II.—Sarah Arianwen Evans, Trevor Evans.

Safon III.—Dosparth I.—David Morgan, W. R. Morgan, Thomas Thomas, Harry Morgan, Evan Thomas, Baldwin Wathan, E. Henry Thomas, Mrs. D. Evans, Gwenllian Morgan, Ioan Morgan, Annie Morgan, Lizzie Morgan, Eleanor Ann Thomas.

GRAIG, LLANDYSSUL.—ARHOLWR : MR. E. O. JENKINS.

Cyfanrif 11.

Safon I.—Dosparth I.—*Mary Thomas, *Sarah Lloyd.
Safon II.—Dosparth I.—*Gwladys Davies, Mary Lloyd. Alice Maud Jones.
Safon III.—Dosparth I.—*David John Evans, *Cerdyn Evans, Johnny O. James, Tom Evans, Rachel Davies, Getta Evans.

PANTDEFAID.—ARHOLWR : PARCH. W. JAMES, B.A., Y.H.

Cyfanrif 21.

Safon I.—Dosparth I.—*Ann Thomas, *Mary Parry, *Mary Evans, *Ann Jones, *Ann Walters, *Mary Jane Jones, Ann Jones (Rhydyfene), Elizabeth Davies, Lizzie Davies, Hannah Jones.
Safon I.—Dosparth II.—Sarah Jones.
Safon II.—Dosparth I.—*Rachel Jones, *Mary Jane Jones, Ann Jones (Rhydyfene), Lizzie Davies, John Evans, Ben Davies.
Safon III.—Dosparth I.—Lizzie Davies, Hetty Jones, Rachel Jones, Evan Jones.

COFNODION Y MIS.

CAPEL BRYN, CWRTNEWYDD.—Llongyfarchwn Dr. Evan Jones, mab Mr. Thomas Jones, Arwerthydd, Cwrtnewydd, ar ei benodiad yn *Assistant House Surgeon* yn *Infirmary* Caerdydd. Siaradai *testimonials* Dr. Jones mor uchel am ei fedrusrwydd a'i gymwysder i'r gwaith fel y gosodwyd ef yn mlaenaf o'r ymgeiswyr, ac yr etholwyd ef heb un petrusder. Dymunwn iddo bob hwylusdod i lanw y swydd gydag anrhydedd iddo'i hun a boddlonrwydd i bawb.

Mae'n bleser genym hefyd i groniclo llwyddiant Mr. John Williams, Clarence Inn, Cwrtnewydd. Digon yw dyweyd iddo mewn arholiad diweddar o dan awdurdodau y Llythyrdy ddyfod allan yn 28ain o ryw 200 o ymgeiswyr.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Derbyniwyd a ganlyn yn mhellach fel tanysgrifiadau a chasgliadau am y flwyddyn 1900—1901 : Miss Sharpe, Llundain, £2 2s. ; Ciliau, 15s. ; Rhydygwin, 15s. ; D. Saunders Davies, Felinfach, 5s. ; Mrs. Jenkins, Aeron villa, 5s. ; John Evans, Cyfreithiwr, Llandyssul, £1 1s. ; W. James, Llandyssul, £1 1s. Hyderaf yr anfonir y tanysgrifiadau a'r casgliadau yn ddioedi i'r Trysorydd—Mr. J. Evans, Solicitor, Llandyssul.—W. J.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Derbyniwyd am lyfrau, &c.—J. R. Jones, Cwrtnewydd, 1s. ; T. G. Thomas, Ffactri Crugeryr, 2s. 3c. ; Daniel Davies, Caeronen, 5s. 4c. Mae rhai symiau yn ddyledus eto o dan y penhwn.—W. J.

CAERONEN.—Cynhaliodd Ysgolion Sul Brondeifi, Caeronen, Alltyplaca, a Chapelygroes, eu Cymanfa eleni yn Caeronen, ar y 13eg o Fai. Aeth y gwahanol ysgolion drwy eu gwaith ar y cyfan yn well nag arfer, a chredwn fod yr ysgolion gyda'u gilydd yn

fwy lluosog. Holwyd y gwahanol ysgolion gan y Parchn. J. Davies, D. Evans, a R. C. Jones. Am 6 yn yr hwyr pregethwyd gan y Parchn. J. Davies a D. Evans. Yr oedd y cynulliadau drwy'r dydd yn lluosog.

GALWAD.--Deallwn fod Mr. D. Delta Evans (Dewi Hiraddug), Llundain, wedi cael galwad unfrydol i Liverpool, i weithio fel cenhadwr mewn cysylltiad a'r North End Domestic Mission, a'i fod yn bwriadu dechreu ar y gwaith yn ystod yr wythnos gyntaf yn Gorphenaf.

Y GRAIG, TREBANOS, A GELLIONEN.—Yn ddiweddar, cynhaliwyd yma Gyngherdd Cysegredig, yn Ysgoldy y Bwrdd, ar brydnawn Sabbath, (*Band Sunday*), pryd y daeth torf luosog ynghyd i wrando'r canu. Cymerodd y Seindorf Arian ran yn y gwaith. Cadeiriwyd yn naturiol gan Mr. Bodycombe, Pontardawe. Diolchir yn gynes i'r cantorion a'r berdonyddes, am eu gwasanaeth derbyniol.

Mawr lawenydd, mi wn, fydd hysbysu darllenwyr yr *Ymofynydd* am waith llwyddianus y Seindorf Arian yn cipio y drydedd wobr yn Eisteddfod fawreddog Mountain Ash, y Pasc, allan o 16 o Seindyrf.

Cafwyd cyfres o gyfarfodydd pregethu haner-blynyddol yma Ebrill 21 a 22. Gwasanaethwyd yn wrol gan y ddau bregethwr enwog, Parchn. J. Davies, Alltyplaca, ac R. J. Jones, M.A., Aberdar. Derbyniwyd casgliadau da iawn ar y cyfan, er y gallesid gwell mewn amser mor dda. Gwrandawyd pregethau grymus, a chanu dymunol. Diolchir ar ran yr eglwys a'r gweinidog, i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau, yn fychain a mawrion. Cyn sychu y pin, nid annoeth crybwyll mai gwell fuasai byw wrth un bregeth yn mhob oedfa. Pa angen dwy? Rhaid byw un yn gyntaf.

Parthed yr Arholiad diweddaf blin oedd genym ganfod mor lleied o ymgeiswyr yn y safonau uwchaf; beth oedd y rheswm cyflawn o hyn anhawdd dweyd. Ond gellir bod yn sicr o un peth, nad yw y gwersi yn ddigon syml a dealladwy i'r cyffredin o ddeiliaid yr Ysgolion Sabbothol. Taer ddisgwylir am fwy o symlrwydd erbyn yr arholiad nesaf.

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Dymunaf adgofio'r cantorion y cynhelir un *Rehearsal* ychwanegol ar y 9fed; yn Nghapelygroes am 2, a'r Llwyn am 6.

Gan fod penderfyniad y pwyllgor i gynal yr Wyl eleni yn Aberystwyth wedi bod yn unol a'ch dymuniadau yn gyffredinol, gobeithio y gwnewch eich goreu i gydweithio a'n harweinyddion lleol, diwyd, a'n harweinydd ieuanc, galluog, er sicrhau llwyddiant perffaith i gymanfa gyntaf ein henwad yn yr ugeinfed ganrif.

Os oes gan y dosbarthwyr ragleni ac anthemau heb eu gwerthu, byddaf ddiolchgar iddynt am ddwyn yr oll sydd weddill i'r *Rehearsals* ar y 9fed.

Oherwydd methu cael capel yn yr hwn i gynal y gymanfa yr ydym wedi bod o dan orfod i gyflogi Neuadd y Farchnad, ystafell eang a chyfleus mewn cysylltiad a'r farchnadfa.

Mae'r trefniadau yn nglyn a'r trên o Llandyssul wedi eu cwblhau. Cychwyna oddiyno am gwarter i wyth yn y boreu, a dychwela o Aberystwyth am 7 yn yr hwyr. Pris 2s.9c.; plant, 1s.4½c. Ceir gwybodaeth eto am yr *Excursion* o Llanybyther a Llanbedr, pan eu cwblheir.

Credwyf mai nid anmhriodol fyddai awgrymu y dylai pob un fod ar ei ymddygiad goreu yn Aberystwyth. Gwn fod meddylddrych yn bodoli yn mhlith llawer o drigolion y dref mai rhyw haner anwariaid ydym ni yr Undodiaid. Na fydded i neb o honom, trwy air neu weithred, adael i'r argraff uchod feddianu eu meddyliau yn hwy na'r degfed o'r mis hwn. —G. T.

CYMANFA GANU MORGANWG.—Dydd Llun, y 13eg o Fai, cynhaliwyd y gymanfa uchod yn nghapel eang a phrydferth yr Anibynwyr yn Gnoll Road, Castellnedd. Cawsom ddiwrnod hafaidd; yr oedd gwyneb sir-

iol y diwrnod gyda'i lygaid gloewon yn ysprydiaeth felus, oblegyd yr oedd pawb yn ymloni o dan gyffyrddiadau tyner ei awelon mwynion a'i haul cynhes. Yr oedd y llwyni llawnion, y perthi gleision, y coedydd deiliog, a'r adar rhwng y cangau, yn llawn o farddoniaeth a chân. Yn nheml anian yr oedd y cyfan yn gân i gyd, yn moli ac yn gogoneddu Creawdwr y bydoedd. Gellid meddwl wrth sylwi o'n cwmpas ar y daith, nad oedd cymaint ag un "*lost chord*" yn nghaniadaeth y greadigaeth faterol; ac yn ddiameu yr oedd y fath unoliaeth anghydmarol yn tiwnio ein calonau ninau gogyfer a'r gwaith o ganu mawl i'n Duw yn nheml addurniadol Gnoll Road.

Daeth tyrfa luosog yn nghyd i gefnogi y mudiad adeiladol a gogoneddus. Yr oedd y gwyr ieuainc, gwyryfon, henafgwyr a'r llangciau, yn ymddangos yn awyddus i addoli yr hwn wisgai anian yn ei dillad goreu —awyddfryd enaid y cantorion yn eu cymhell i fyn'd heibio prydferthwch natur at yr hwn sy'n meddwl yn brydferth erioed. Cynhaliwyd dau o gyfarfodydd, un yn y prydnawn, a'r llall yr hwyr. Dechreuwyd y gwahanol oedfaon cerddorol trwy ddarllen a gweddio, gan y Parchn. W. J. Phillips, a T. J. Jenkins. Cymerwyd y gadair yn y prydnawn gan y Cynghorwr Hopkin Morgan, diacon yn y capel Anibynol, a chafwyd araeth gampus ganddo: "Mae canu," meddai, "wedi bendithio Cymru, ac wedi bod yn llawforwyn weithgar i'r Efengyl er creu calonau newydd a'u dwyn yn nes at Dduw. Mae pobpeth cysylltiedig a chanu wedi ei berffeithio. Bu adeg pan nad oedd yr emyn a'r dôn yn cytuno—y dôn yn dawnsio a'r emyn yn wylo. Mae genym ni etifeddiaeth decach, a dylasem werthfawrogi ein breintiau." Yn yr hwyr llywyddwyd gan L. C. Thomas, Ysw., Maer y dref, a mab i'r diweddar Mr. Thomas, Ironmonger, Merthyr. Sylwodd, mewn araeth flodeuog, "ei fod yn Undodwr argyhoeddedig, ac yn barod bob amser i wneud pobpeth fedr er hyrwyddo lledaeniad yr egwyddorion sydd yn anwyl genym fel enwad." Yr arweinydd oedd y Parch. D. Evans, Cwmbach. Aeth trwy ei waith yn ganmoladwy; cyfeiliwyd gan Mr. Morgan Morgan, Aberdar, yn hynod o feistrolgar. Yn y cyfarfodydd canwyd y Tonau—"Henllys, Glanyrafon, Ciliau, St. Peter, Wyddgrug, Salome, Beaufort, Hanover, Y Faenor, Milton, Capel Tygwydd, Tyr'd i'r Ysgol Sul," a'r Anthemau, "Mor hawddgar yw Dy bebyll," "Sing ye Jehovah's praises," a "I will extol thee." Nid oedd y canu cystal a'n disgwyliadau yn y prydnawn. Priodolid hyny i'r ffaith nad oedd yr amrywiol gorau wedi cael *Rehearsal* gyda'u gilydd o'r blaen. Heb ameu cywirdeb y gosodiad yna, tueddir ni i gasglu mai esgeulusdod mewn parotoad oedd wrth wraidd gwaelder y canu yn benaf. Canwyd "Glanyrafon, Capel Tygwydd," a'r anthem, "Sing ye Jehovah's praises" yn dda iawn yn y cyfarfod hwn, ond hanes du sydd i'r anthem Gymreig. Trodd yr ymdrech i ganu hono yn fethiant truenus. Yr oedd yr anthem hon yn ormod baich o bosibl, ond y pechod mwyaf oedd diffyg parotoad. Gresyn meddwl ein bod yn anturio tua Chastellnedd i gynal Cymanfa cyn dysgu y tônau a'r anthemau yn weddol drwyadl. Yn y cyfarfod hwyrol yr oedd y canu lawer iawn yn well, gwell hwyl, gwell unoliaeth, gwell tonyddiaeth, a'r canu yn fwy gafaelgar. Yn hwn canwyd yr anthemau Saesneg a'r mwyafrif o'r tonau yn rhagorol iawn. Cyrhaeddodd y gwres cerddorol safle bur uchel, a theimlid fod Duw yn y canu, ac ond cael Duw i'r gân ceir bendith wedi'n. Yn ystod y cyfarfodydd, er rhoi hamdden i'r cantorion, anerchwyd y gynulleidfa gan Lewis Hopkin, Gellionen; John Morgan, Clydachvale; Miss Rowland, Ffrwdvale; a'r Parchn. W. Tudor Jones, a R. J. Jones, M. A., Bu y Parchn. J. H. Davies, a D. Rees yn helpu trwy wneud eu hunain yn wasanaethgar pan yr oedd galwad. Pasiwyd pleidleisiau gwresog o ddiolchgarwch i'r Anibynwyr a'r Bed-

yddwyr am eu caredigrwydd yn rhoi benthyg, y blaenaf, eu capel, a'r olaf, eu *Vestry* i wneud bwyd. Ni anghofiwyd hefyd i gydymdeimlo a Mr. L. N. Williams, yn ei afiechyd, a Mrs. Griffiths a'r teulu yn Heolyfelin, yn eu galar. Dymunem ddiolch i'r ysgrifenydd, y Parch. J. E. Jenkins, am ei ddiwydrwydd ynglyn a'r Gymanfa. Yn y cwrdd hwyrol siaradodd Mr. Morgan, gweinidog parchus Gnoll Road, yn ardderchog. Dyma ddyn sy'n meddu ar ysbryd digon rhyddfrydig i gydnabod safle yr Undodia'd fel ymdrechwyr o blaid y da a'r pur. Yn y pwyllgor pasiwyd gydag unfrydedd i roddi gwahoddiad taer i gantorion Sir Aberteifi i uno a ni i gynal Cymanfa fawr yn Abertawe yr haf nesaf. Gobeithio y gwnant gydsynio.—*Un oedd yno.*

LLONGYFARCHIAD. — Da genym longyfarch Mr. J. Gwenogfryn Evans, M.A., ar yr anrhydedd mae wedi dderbyn gan Brif-ysgol Rhydychen. Anrhegwyd ef a'r teitl anrhydeddus o D. Litt., ac adnabyddir Mr. Evans bellach fel Dr. Gwenogfryn Evans.

PRIODASAU.

Yn Rhydygwin, ar y 14eg o Fai, gan y Parch. L. Williams, a cherbron y Cofrestrydd, J. M. Howell, unwyd mewn priodas Mr. David Jones, Cilerwisc, Llanfihangel-Ystrad, a Miss Kate Lloyd, Felindre-uchaf, o'r un plwyf. Hir oes a phob llwyddiant i'r ddau.

Yn Highland Place, Aberdar, dydd Mercher, Ebrill y 17eg, unwyd mewn glân briodas gan y Parch. D. Evans, Cwmbach, Mr. Richard Walters, Penrhyngradock, Mountain Ash, a Miss Lizzie Morgan, merch Mr. John Morgan, Abernantygroes, Cwmbach. Boed pob llwyddiant yn canlyn ymdrechion ein dau gyfaill gweithgar yn eu cartref newydd.

MARWOFION.

CHWEFROR 15fed, bu farw Eunice Eleanor, merch y Parch. D. John Williams, Twyn-yr-odyn, Merthyr Tydfil, yn flwydd ac un mis ar ddeg oed. Claddwyd yn y Gladdfa Gyffredinol ar y Llun, Chwefror 8fed, y Parch. J. Hathren Davies, yn gwasanaethu.

"Ere sin could blight or sorrow fade
Death came with friendly care,
The infant bud to Heaven conveyed
And bade it blossom there."

EBRILL 25, Evan, mab William ac Anne Evans, gynt Ebenezer St., Trecynon, Aberdare, yn 36 oed. Bu am flynyddau yn un o ffyddloniaid yr

Hen Dy Cwrdd. Yr oedd yn ŵyr i Evan Richard Jenkin. Gwasanaethwyd yn yr angladd ar y Llun gan R. J. J.

'Rol bywyd stormus wele'r cyfaill Ifan
Yn ddiogel bellach yn y dawel hafan.

MAWRTH 22ain, yn 85 oed, David Evans, Draper, Troedyrhiw, Merthyr. Er wedi treulio y rhan fwyaf o'i oes yn Merthyr a'r gymydogaeth, ganwyd Mr. Evans yn y Milestone, Llangeler, Sir Gaerfyrddin, yn 1815. Yr oedd yr ail mewn teulu o dri o frodyr, y rhai oll a fuont byw a marw yn y ffydd Undodaidd. Un o'i frodyr oedd y diweddar John Evans, Emlyn Castle, Castellnewydd. Yr oedd eu mam yn wyres i Eliseus, brawd Jenkin Jones, sylfaenydd Llwynrhydowen. Felly yr oedd gwaed y gwir Ryddfrydwr crefyddol yn rhedeg yn ei wythienau, a gellir dweyd am dano na fu yr un Undodwr erioed yn fwy ffyddlon i draddodiad etifeddol ei deulu, ac nid oedd yn ffyddlondeb dall chwaith ; nid oedd yn Undodwr am ei fod wedi ei ddwyn i fyny felly : yr oedd o argyhoeddiad ; ac i ddyn dieithr yr oedd pum' munud o ymddyddan ag ef yn ddigon i brofi mor ddwfn yr oedd Undodiaeth wedi gwreiddio yn ei natur, ac wedi dyfod yn elfen lywodraethol yn ei fywyd; a'r canlyniad oedd y cariter cyfan, amlochrog, cyson, anrhydeddus oedd yn gwneud ei hun yn amlwg i bob un oedd yn ei adnabod. Efe oedd yr aelod henaf yn Hen Dŷ Cwrdd, Cefncoedycymer, lle yr oedd wedi arfer cyrchu, tra y gallai, er ys mwy na haner can mlynedd. Ysgrifena un o'i hen gyfeillion, y Parch. Nestor Williams am dano yn y geiriau hyn, —"Yr oedd ef yn un o'm cyfeillion henaf yn nghymydogaeth Merthyr, ac nid oedd neb ag y teimlwn i fwy o barch iddo. Yr oedd yn wir gyfaill, yn ateb i'r syniad uwchaf am gyfaill, ac yn ddyn caredig ac anrhydeddus." Dioddefodd lawer yn y blynyddoedd diweddaf, ond gweinyddwyd arno gyda'r ymroddiad llwyraf gan blant ydynt wedi colli tad oedd mor hynod am ei dynerwch a'i gydymdeimlad. Cymerodd yr angladd le dydd Iau, yr 28ain, y gladdedigaeth yn mynwent Hen-dy-cwrdd, Cefncoed. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y Parchn. D. J. Williams, Twynyrodyn; D. Williams, (A.) ; J. W. Price, (A.), Troedyrhiw, a D. Phillips, (B.), Treharris.

EBRILL y 13eg, bu farw David Williams, Clynglas, ger Cribyn, yn 41 oed, gan adael gweddw a phedwar o blant ieuainc ar ei ol. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono dydd y Iau canlynol, yn mynwent Eglwys Llanbedr. Gweinyddwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

EBRILL 13, yn 54 oed, Mrs. Mary Evans, priod Thomas Evans, Tancoedmawr, Llandyssul. Y dydd Mercher canlynol claddwyd ei gweddillion marwol yn Pantdefaid, a gwasanaethwvd ar yr achlysur gan y Parchn. Arthur Thomas, a Thomas Thomas, Y.H. Yr oedd yr ymadawedig am rai blynyddau wedi bod yn geidwad Capel y Graig, a'r Sul olaf y bu fyw, ymddangosai yn ei hiechyd arferol, ond yn anisgwyliadwy ehedodd ei hyspryd at yr Hwn a'i rhoes. Nerth gaffo'r priod a'r plant i alaru yn gymedrol ar ol un oedd yn anwyl iddynt. Cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol iddi yn y Graig, bore Sul yr 21ain.

EBRILL 16eg, Evan Jones, Rhydydefaid, yn 82 mlwydd oed. Hen frawd diniwed oedd Evan Jones, a chymeriad ar ei ben ei hun, a'r rhan fwyaf, os nid pawb, o'i gydnabod yn hoff o hono. Gadawodd ar ei ol blant a pherthynasau eraill, a chyfeillion i gadw ei goffadwriaeth yn fyw. Yn unol a'i ddymuniad claddwyd ei weddillion yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

EBRILL 17eg, John Jones, Cwmann Tavern, ger Llanbedr, yn 66 mlwydd oed. Cafodd ei eni a'i fagu yn Brynyreglwys, Llanwenog. Bu'n clafychu am rai wythnosau, a chafodd ei gyfyngu i'w wely am ychydig o honynt, ond nid oedd ei gydnabod yn meddwl nad oedd eto i gael adferiad i'w iechyd yn ystod tywydd teg yr

haf, ond croes i hyn y bu, ac ymadawodd a'i babell adfeiliedig ar y dydd uchod, er mawr siomedigaeth i lu mawr o gyfeillion a pherthynasau. Yn ystod ei oes gorfu arno fyned trwy lawer o brofedigaethau chwerwon iawn, ond medrai ddioddef y cyfan yn ddirwgnach, ac heb ddyweyd ond ychydig wrth eraill am danynt. Un o elfenau mwyaf amlwg ei gymeriad oedd diniweidrwydd, ac elfenau eraill yr un mor amlwg yn ei gymeriad oedd didwylledd a gwroldeb ; rhedai y tair elfen yma yn llinellau cyfochrog ac amlwg drwy ei holl fywyd, ac er mor ddiniwed a'r oen nid oedd ei ddiniweidrwydd yn medru ei amddifadu o'i ddidwylledd a'i wroldeb, ond medrai sefyll i fyny yn ddewr o blaid yr hyn a gredai oedd iawn, yn wleidyddol a chrefyddol, gan nad beth fyddai y canlyniad, a bu i hyn ganlyniadau trist, mewn ystyr fydol, ar ambell i dro yn hanes ei fywyd. Yr oedd yn aelod o eglwys Brondeifi. Gadawodd i alaru ar ei ol blant ac wyrion, a llu o berthynasau eraill a chyfeillion. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn mynwent Aberduar. Gwasanaethwyd wrth ytŷ gan R. C. J., a'r Parch. L. Williams, ac yn y fynwent gan y Parch. H. James.

EBRILL 17eg, yn 86 oed, Owen Jones, 'Rheol ger Pontshan, Llandyssul. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol, yn mynwent Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y cyn-weinidog. Gadawodd ddau fab a merch i alaru ar ei ol.

EBRILL 30ain, yn 67 oed, Thomas Evans, diweddar o Borthyrhyd, a chyn hyny o Bontshan. Bu farw yn nhy ei ferch yn Llwynrhydowen, ty sydd yn sefyll tu fewn i ychydig latheni i'r hen dderwen sydd wedi dyfod yn enwog mewn cysylltiad a hanes Dafis Castellhywel. Perthynai yr ymadawedig i un o hen deuluoedd Dyffryn Clettwr, adnabyddus am eu ffyddlondeb i'r achos yn Llwynrhydowen. Treuliodd ei oes yn yr hen ardal ; magodd deulu lluosog ; cafodd brofiad o deg a garw bywyd, ond cadwodd ei galon yn ddewr a siriol hyd y diwedd. Cafodd gystudd caled :

> "Melus i bererin blin
> Wedi siwrnai ydyw hûn."

Claddwyd yn mynwent y capel newydd y dydd Gwener canlynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. Arthur Thomas, a W. James, Brynhyvryd.

MAI 1af, yn 14 mlwydd oed, ar ol hir gystudd, Mary, merch John Hughes, Crosswood, Dihewyd. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn nghladdfa y Cribyn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, ac ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans. Teimlir hiraeth dwys ar ei hol. Nerth a gaffo'r tad i ymostwng i'r drefn, ac i ddal o dan y brofedigaeth yn yr ystyriaeth fod pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.

MAI 10fed, Mr. John Griffiths, Pantglas villa, Llewelyn st., gynt o'r Stag, Aberdar. Ganwyd ef Mai 16, 1841, ac felly nid oedd ond chwe' diwrnod yn fyr o 60 oed. Gedy weddw a phlant a pherthynasau luaws—brawd yn y weinidogaeth (M.), a chwiorydd—i alaru eu colled—y teulu oll yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn yr Hen-dy-cwrdd. Gwasanaethwyd ddydd yr angladd, yn y tŷ gan y Parch. J. Morgan, (M.), ac ar lan y bedd yn y Gladdfa Gyffredinol gan y Parchn. R. J. J. ; John Lewis, (M.), a David Evans, Cwmbach.

> "We know not where God's islands lift,
> Their fronded palms in air ;
> We only know man cannot drift
> Beyond His love and care."

Mr. John Griffiths a Miss Margaret Williams [merch y Carw Coch] oedd y ddau gyntaf a briodwyd yn yr Hen-dy-cwrdd—a hyny Medi 24, 1867. Y gweinidog oedd R. J. J. ; y *Registrar*, Mr. Morgan Williams ; a'r ddau dyst, Mr. Lewis N. Williams, a Miss Jones, Full Moon—brawd a chyfnither i'r fenyw ieuanc.

COLOFN Y GOLYGWYR.

GWEINIDOGION UNDODAIDD FEL YSGOLFEISTRI AC . . ATHRAWON. . .

Mae Cyfres newydd o Erthyglau yn cael eu trefnu ar y testyn hwn i ymddangos o dro i dro yn y misoedd dyfodol. Teimlir yn gyffredin fod gweinidogion yr Undodiaid yn Nghymru wedi gwneud gwasanaeth ardderchog fel ysgolfeistri ac athrawon yn ystod y ganrif ddiweddaf. Gan nad beth feddylir am eu duwinyddiaeth, cydnabyddir yn gyffredin, gyda phob parodrwydd, fod llawer ardal yn Neheudir Cymru o dan ddyled neillduol iddynt am eu hymdrechion personol dros addysg, ac am y gefnogaeth a'r cymhorth ddarfu iddynt estyn i lawer ysgolor tlawd, ond gobeithiol, pan yn brwydro am wybodaeth. Erys enwau Dafis, Castellhywel; James, Gellionen; Jones, Aberdar; Evans, Cefn; John Thomas; a Gwilym Marles, Llandyssul; John Davies, Castellnewydd; Titus Evans, Caerfyrddin, a llawer eraill, heblaw y rhai sydd eto yn fyw, ar gof a chadw am flynyddau lawer fel gwir gymwynaswyr eu cenedl. Safasant yn ddewr i ddal i fyny yn eu dwylaw *lamp* gwybodaeth mewn llawer cilfach, pan nad oedd y wawr ond dechreu tori sydd wedi myned yn ddydd goleu erbyn hyn ar Gymru. Ysgrifenir adgofion am bob athraw, yn ddieithriad, gan un o'i ysgolheigion, a hwnw yn perthyn, os yn bosibl, i enwad crefyddol gwahanol i'r athraw ei hun. Mae y trefniadau canlynol wedi eu gwneud yn barod, ac yr ydym o dan rwymedigaethau neillduol i'r ysgrifenwyr am eu parodrwydd siriol i dalu teyrnged o barch i'w hoff athrawon ar dudalenau Yr Ymofynydd :—

1. WILLIAM THOMAS, M.A., (Gwilym Marles), Llandyssul, gan y Parch. T. Talwyn Phillips, B.D., Bala.—mewn llaw.
2. JOHN THOMAS, Llandyssul, gan y Parch. Dr. Bowen Jones, B.A., Aberhonddu.—mewn llaw.
3. TITUS EVANS, Caerfyrddin, gan y Parch. T. Pennant Phillips, Llandyssul.
4. Dr. LLOYD, Caerfyrddin, gan y Proff. D. E. Jones, M.A., Caerfyrddin.
5. Y PRIFATHRAW HUNTER, Caerfyrddin, gan y Parch. J. Morgan Gibbon, Llundain.
6. OWEN EVANS, Cefncoed, gan y Parch. R. Rowlands, Llundain.

Gobeithio y bydd yr Amlen felen yn adgofio ein darllenwyr a'n dosparthwyr fod tâl yn ddyledus ar dderbyniad y rhifyn hwn. Dymunir ar i'r taliadau gael eu danfon ar unwaith i'r Cyhoeddwr, er mwyn cael Balance Sheet "Yr Ymofynydd" yn barod erbyn y Cyfarfodydd Blynyddol. "Yr hyn ydwyt yn wneuthur gwna ar frys."

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.